Cofnodion **CYFARFOD y CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 20 Medi 2023, yn dechrau am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, J. M. Evans, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, A. Walker a Miss C. L. Williams

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**53. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard a D. Simmons.

**54. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a'r pwyllgorau isod i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 19 Gorffennaf 2023 - Cofnodion rhifau 37-52

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs. W. M. Mullen-James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 19 Gorffennaf 2023 - Cofnodion rhifau 7-11

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 6 Medi 2023 - Cofnodion rhifau 12-15

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms. J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 6 Medi 2023 - Cofnodion rhifau 19-30

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a chadarnhau eu gweithredu.*

Yng nghyswllt cofnod rhif 25 (Ymgynghoriad: Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Adolygiad Darpariaeth Ymateb Brys), cynghorodd y Cynghorydd B. Mellor ei fod wedi'i hysbysu nad oedd yr elfen llogi ystafell gymunedol yn yr

Orsaf Dân ar Ffordd yr Arfodir yn cael ei chynnig mwyach. Roedd y Cynghorydd Mellor yn bryderus fod swm sylweddol o arian wedi'i fuddsoddi yn yr orsaf gan Lywodraeth Cymru, a bod y gymuned leol yn colli'r gallu i logi ystafell.

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *y byddai Clerc y Dref yn ysgrifennu llythyr at y Gwasanaeth Tân i holi ai dyma'r sefyllfa ac, os felly, beth oedd wedi arwain at y penderfyniad i roi'r gorau i gynnig y cyfleuster hwn i'r gymuned.*

## 55. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y digwyddiadau roedd hi a'r Dirprwy Faer wedi bod ynddynt yn ystod y mis diwethaf (dosbarthwyd gyda'r agenda), yn enwedig y digwyddiad Summer Soul yn yr Arena Digwyddiadau yr oedd hi a'i chonsort wedi'i fwynhau yn fawr. Buont yn dawnsio drwy'r dydd a chawsant baentio eu wynebau!

Crybwyllodd y Maer y Sioe Awyr hefyd, a oedd unwaith eto yn ddyddiau rhagorol a oedd wedi denu'r torfeydd. Ychwanegodd y Maer ei bod hi wedi cyfarfod dyn 95 oed, Mr Ron Hastings, a oedd wedi hedfan yr awyren Lancaster Bomber. Roedd hi wedi hysbysu tîm y Red Arrows ei fod yno, a daeth aelod o'r tîm i sgwrsio gyda Mr Hastings a mwynhau sgwrs hir gydag ef.

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at y Sioe Awyr hefyd, ac at y ddwy seremoni codi baner y bu ynddynt i gofnodi Diwrnod y Llynges Fasnachol a Diwrnod y Gwasanaethau Brys. Dau ddiwrnod pwysig roedd hi'n falch iawn o fod yn rhan ohonynt.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James y Maer a'r Dirprwy Faer ar fynd i gymaint o ddigwyddiadau yn ystod y gwyliau haf, cyn mynd ymlaen i ddweud ei bod yn teimlo y dylai'r Cyngor Tref gael presenoldeb llawer mwy amlwg yn y Sioe Awyr, o gofio faint o arian roedd y Cyngor Tref yn ei gyfrannu at y digwyddiad.

Cynghorodd Clerc y Dref fod hwn yn fater sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar hyn o bryd.

## 56. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 57. CYNLLUN GOLEUADAU ADDURNIADOL CYNGOR TREF Y RHYL

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yr oedd wedi'i ddosbarthu eto, gyda chopïau caled ar gael yn y siambr) yn dilyn cywiro ffigur a nodwyd yn wallus.

Adroddodd Clerc y Dref am ganlyniadau'r gwahoddiad i dendro ar Gwerthwch i Gymru, cyn gwahodd cynrychiolydd o gwmni Blachere Illuminations, Mr Jonathan Bradford, i'r cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau gan yr aelodau.

Arweiniodd Mr Bradford yr aelodau drwy bob un o'r tri chynllun arfaethedig (A, B a C) a rhannodd ei sgrîn i ddangos sut y byddent yn edrych yn ystod y dydd a'r nos a sleidiau wedi'u hanimeiddio.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau a Chlerc y Dref, cynghorodd Mr Bradford:

- fod y gwarant safonol am ddau dymor, ond y byddai'n hapus i ymestyn hynny i dri thymor.

- roedd ystod o oleuadau traws stryd cymhathus ar gael ar gyfer pob un o'r tri opsiwn.

- petai'r Cyngor Tref yn dewis cynllun prydlesu, yna byddai'r warrant yn cwmpasu unrhyw gostau cludiant pe bai unrhyw broblemau gyda'r unedau ac angen eu cludo i'w trwsio (ac eithrio problemau'n deillio o fandaliaeth neu ddigwyddiadau tywydd eithafol).

- nid yw Blachere yn cynnig cynllun 'prynu'n ôl', ond byddai'n cynorthwyo'r Cyngor Tref i ailgylchu'r goleuadau addurniadol cyfredol.

- roedd pob un o'r uned ymhell o dan y lefel goddefgarwch sy'n ofynnol o ran goleuadau'n fflachio yn ysgogi epilepsi.

- byddai Opsiwn B, os dewisir prydlesu, yn gymysgedd o unedau newydd ac unedau wedi'u hadnewyddu a ddefnyddiwyd am un tymor yn unig yn flaenorol.

- byddai Opsiwn C, os dewisir prynu, yn cynnwys unedau newydd sbon yn llwyr.

- byddai'r gwarant tair blynedd yn berthnasol i'r tri opsiwn.

- roedd y tri opsiwn ar gadw yn y warws i'r Cyngor Tref a byddai'r cynllun a ddewisir yn cael ei ddanfon mewn pryd ar gyfer arddangosfa'r Nadolig eleni.

Diolchodd y Maer i Mr Bradford am ei bresenoldeb cyn iddo adael y cyfarfod.

Cynghorodd Clerc y Dref fod dal ati i atgyweirio'r goleuadau cyfredol, sydd ymhell y tu hwnt i'w cyfnod oes, yn costio mwy i'r Cyngor Tref yn y tymor hir nag y byddai i brynu neu brydlesu cynllun newydd.

Yn dilyn ystyried yr holl opsiynau a gyflwynwyd gan Blachere Illuminations ac ystyried atebion Mr Bradford, ***<u>PENDERFYNWYD</u>****:*

*(i)* *y dylai Clerc y Dref fwrw ymlan gyda phrynu'r cynllun arfaethedig a gyflwynwyd fel Opsiwn C gan Blachere Illuminations am gyfanswm o £31,573.*

(ii) *fod yr aelodau'n awdurdodi Clerc y Dref i wario hyd at £5,000 yn ychwanegol os cyfyd unrhyw gostau na chawsant eu rhagweld.*

## 58. SESIWN AGORED

***PENDERFYNWYD*** *cynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn agored (nad yw'n gyfrinachol).*

## 59. CYNGOR TREF RHUDDLAN – CYFARFOD ARFAETHEDIG I DRAFOD DARPARIAETH MYNWENT

Hysbysodd y Maer y derbyniwyd yr ohebiaeth uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am ddull cydweithredol o drafod yr angen am fynwent newydd yng ngogledd Sir Ddinbych, ac yn gwahodd cynrychiolydd o Gyngor Tref y Rhyl i gyfarfod am 7pm ar 26 Hydref.

***RESOLVED*** *y byddai'r Maer a Chlerc y Dref yn mynd i'r cyfarfod.*

## 60. YMATEB I YMGYNGHORIAD: GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU – YMGYNGHORIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH YMATEB BRYS

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Medi 2023, adroddodd Clerc y Dref ei fod wedi derbyn ymateb gan y Gwaanaeth Tân ac Achub (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dilyn sylwadau'r Cyngor Tref ynghylch yr ymgynghoriad, er gwybodaeth i'r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr ateb yn ddiolchgar.*

## 61. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 62. EITEM GYFRINACHOL YCHWANEGOL: CYFARFOD CABINET CYNGOR SIR DDINBYCH

Cyngorodd Clerc y Dref y gwnaed y sylwadau a ganlyn yng nghyswllt Ardal Datblygu Busnes y Rhyl gan y Cynghorwyr Sir Mrs J. M. Evans a B. Jones, a a bod nifer o aelodau wedi gwneud cais i drafod y sylwadau a phenderfynu ar ymateb ffurfiol.

Dywedodd yr aelodau a oedd yng nghyfarfod y Cabinet neu a wyliodd y gweddarlllediad eu bod yn flin ac yn siomedig iawn clywed nifer o sylwadau ymfflamychol ac anghywir ynghylch perthynas y Cyngor Tref gydag Ardal Datblygu Busnes y Rhyl ers ei sefydlu.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref:*

*(i) yn drafftio llythyr at Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych yn ymdrin â'r anghywirdebau ac yn gofyn, unwaith y byddai'r llythyr wedi'i gymeradwyo gan yr aelodau, ei fod yn cael ei ddarllen ar lafar yng*

*nghyfarfod y Cabinet neu yng nghyfarfod y Cyngor llawn fel hawl y Cyngor Tref i ymateb.*

*(ii)* *yn cyfarfod gyda Rheolwr Ardal Datblygu Busnes y Rhyl, Ms Abigail Pilling, i sicrhau nad yw'r mater hwn yn effeithio ar yr enghreifftiau niferus o gydweithio rhwng y Cyngor Tref ac Ardal Datblygu Busnes y Rhyl.*

**63. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer bod y cyfarfod wedi diweddu.

Y Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..